OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 371 (Cy.44)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - -	*19 Chwefror 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*21 Chwefror 2013*
Yn dod i rym - -	*16 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mawrth 2013.

Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008

2.—(1) Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 7(ch) yn lle "31 Mawrth 2013" rhodder "31 Mawrth 2014".

(3) Yn erthygl 11(d) yn lle "31 Mawrth 2013" rhodder "31 Mawrth 2014".

(4) Yn erthygl 11(dd) yn lle "31 Mawrth 2013" rhodder "31 Mawrth 2014".

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd adran 43 gan Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14); Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p. 29); Atodlen 8 i Ddeddf Gwasanaethau'r Post 2000 (p. 26); adrannau 1 a 3 o Ddeddf Ardrethu (Cyn Fangreoedd Amaethyddol a Siopau Cefn Gwlad) 2001 (p. 14); adrannau 61, 63 a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26); ac Atodlen 1 i Ddeddf y Dreth Gorfforaethau 2010 (p. 4). Mewnosodwyd adran 43(4B) gan adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Diwygiwyd adran 44 gan Atodlenni 5 a 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42); Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14); ac adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26).

(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2008/2770 (Cy.246) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/273 (Cy.36), O.S. 2010/2223 (Cy.195), O.S. 2010/2582 (Cy.216), O.S. 2011/995 (Cy.148), O.S. 2011/2085 ac O.S. 2012/465 (Cy.76).